Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Strategaeth Bwyd Cymunedol
# Arolwg Rhanddeiliaid

Mawrth 2022

# Dull

- Comisiynwyd y gwaith hwn gan Lywodraeth Cymru oddi wrth Four Cymru
- Arolwg ar-lein wedi’i gynnig yn ddwyieithog i bobl sy’n cymryd rhan mewn prosiectau/mentrau bwyd cymunedol yng Nghymru
- Cafodd y cyfranogwyr eu recriwtio trwy e-bost a’r cyfryngau cymdeithasol
- Nifer o holiaduron wedi’u cwblhau: **87**



# Canlyniadau'r arolwg

# Roedd bwyd cymunedol yn dueddol o fod yn gyfystyr â ‘bwyd wedi’i dyfu’n lleol’

**C1. Beth mae’r term ‘bwyd cymunedol’ yn ei olygu i chi?**

87 ymatebwr

O’r atebion a ddadansoddwyd a oedd yn canolbwyntio ar y diffiniadau a grybwyllwyd amlaf o ‘fwyd cymunedol’:

- Dywedodd 38% fod ‘bwyd cymunedol’ yn gyfystyr â ‘bwyd wedi’i dyfu’n lleol’
- Mae 16% yn meddwl ei fod yn golygu bwyd iach, organig a ffres
- Dywedodd 15% ei fod yn golygu bod bwyd sy’n hygyrch i'r gymuned
- Mae 12% yn meddwl bod bwyd cymunedol yn rhad ac am ddim
- Dywedodd 11% fod bwyd cymunedol yn hybu cynhyrchu bwyd gwydn a chynaliadwy
- Mae 7% yn meddwl bod bwyd cymunedol ar gyfer aelodau’r gymuned sydd mewn angen (h.y. y digartref)



# Roedd darpariaeth llysiau/cynlluniau bocsys llysiau ymhlith y mathau o brosiectau bwyd a soniwyd amdanynt amlaf

**C2. Pa brosiect/menter bwyd ydych chi’n rhan ohoni? Rhowch fanylion fel: enw, lleoliad, a math o weithgaredd a.y.y.b.**

87 ymatebwr

Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn **ymwneud â mwy nag un math o brosiect bwyd cymunedol**

O’r atebion a ddadansoddwyd a oedd yn canolbwyntio ar y mathau o brosiectau bwyd y soniwyd amdanynt fwyaf:

- Soniodd 25% am ddarpariaeth llysiau/cynlluniau bocsys llysiau
- Soniodd 24% am fanciau bwyd
- Soniodd 24% am erddi cymunedol
- Cyfeiriodd 18% at fentrau ffermio lleol
- Soniodd 9% am fentrau darparu bwyd llywodraeth leol/y cyngor

Wrth gymharu'r defnyddiwr â chanlyniadau arolwg B2C:

- Nid bocsys llysiau oedd y mathau o brosiectau y soniwyd amdanynt fwyaf ymhlith defnyddwyr
- Roedd banciau bwyd a mentrau ffermio lleol ymhlith y rhai a grybwyllwyd fwyaf ar gyfer defnyddwyr, yn ogystal ag ar gyfer cynrychiolwyr mentrau

Lleoliadau penodol yng Nghymru ar fwy na dau achlysur:

- Soniodd 46% am Abertawe
- Soniodd 33% am Gaerdydd
- Cyfeiriodd 21% at Wrecsam

**CSA (Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned)** oedd y math o gynhyrchu a marchnata bwyd cymunedol y soniwyd amdano fwyaf.



# Cyfeiriodd ymatebwyr at leoliadau niferus ar gyfer prosiectau ar wahân i'r rhai y cyfeiriwyd atynt amlaf

C2. Pa brosiect/menter bwyd ydych chi'n rhan ohoni? Rhowch fanylion fel:
enw, lleoliad a math o weithgaredd ac ati - lleoliadau ychwanegol


**Crybyllwyd amlaf:**
Abertawe, Caerdydd a Wrecsam

**Lleoliadau eraill y soniwyd amdanynt:**
Uplands, Corneli, Pemberton, Dwyfor, Llanelli, Castell-nedd, Marford, Sir y Fflint, Caerllion, Bryncae, Rhydaman, Y Waun, Doc Penfro, Merthyr Tudful, Trowbridge, Caerfyrddin, Arberth, Bae Colwyn, Y Bontfaen, Y Creunant, Porth Tywyn, Cilgerran, Llandudoch, Y Drenewydd, Aberfan

# Roedd y mwyafrif o'r prosiectau/mentrau y soniwyd amdanynt yn cynnwys dros 41 aelod

**C3. Heblaw amdanoch chi, faint o bobl eraill sy'n ymwneud â'r prosiect/menter?**

87 ymatebwr





Roedd mwy o fudiadau sy'n gweithio gydag 1-20 person o'i gymharu â'r rhai sy'n gweithio gyda 21- 41+ person:

- 21 i 41+ = 31
- 1 i 20 = 50

# Gwirfoddolwyr oedd o math o berson oedd yn ymwneud fwyaf â phrosiectau ‘bwyd cymunedol’

**C4. Pwy sy’n ymwneud â’r prosiect/menter? Dewiswch bob un sy’n berthnasol.**

85 ymatebwr



# Awgrymodd nifer fach o unigolion fathau gwahanol o bobl sy’n ymwneud â phrosiectau/mentrau

C4. Arall, nodwch os gwelwch yn dda

22 ymatebwr





Soniodd 41% am aelodau o awdurdodau lleol:

- 67% cynghorau lleol
- 33% eglwysi

# Mae rhan fwyaf o'r prosiectau'n ddiweddar, ond mae lleiafrif wedi bod yn rhedeg ers dros 11 mlynedd

87 ymatebwr


C5. Ers pryd mae eich prosiect/menter wedi bod yn rhedeg?



# Mae mwyafrif helaeth y prosiectau wedi derbyn cyllid trydydd parti

C6. Ydy eich prosiect/menter wedi derbyn cyllid trydydd parti?

87 ymatebwr



# Nododd 69% o’r cyfranogwyr ffynhonnell eu cyllid

C6. Os wnaethoch chi glicio Ydy ar gyfer C6, manylwch os gwelwch yn dda

O’r atebion a ddadansoddwyd a oedd yn canolbwyntio ar y ffynonellau cyllid a grybwyllwyd amlaf:

- Soniodd 27% am Lywodraeth Cymru
- Soniodd 24% am gynghorau lleol
- Cyfeiriodd 15% at arian y Loteri
- Soniodd 12% am gyllid gan Ymddiriedolaethau
- Cyfeiriodd 12% at y sector preifat (h.y. unigolion a busnesau)
- Soniodd 5% am WCVA (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)
- Soniodd 5% am y Rhaglen Datblygu Gwledig



# Soniodd cyfranogion am ambell Ymddiriedolaeth fel rhan o'u ffynonellau cyllido

**C6. Os wnaethoch chi glicio Ydy ar gyfer C6, nodwch Ymddiriedolaethau penodol**

The Trussell Trust

ASDA Foundation Trust

Conservation Farming Trust

People's Health Trust


Coed Cadw

Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# Mae'r mwyafrif yn ariannol hunangynhaliol mewn rhyw ffordd gyda rhywfaint o gyllid trydydd parti

**C7. A fyddech chi'n ystyried eich prosiect/menter yn un ariannol hunangynhaliol ar hyn o bryd neu a yw'n dibynnu ar gyllid neu gefnogaeth trydydd parti i weithredu?**

78 ymatebwr



# Pwysleisiodd rhan fwyaf o’r ymatebwyr ddibyniaeth eu prosiect at gyllid trydydd parti

**C7. Os gwnaethoch chi ddewis unrhyw opsiwn ar gyfer C7 rhowch fwy o fanylion yma (neu Ddim yn Berthnasol os nad oes sylw gennych)**

51 ymatebwr

*‘Ffioedd aelodaeth a rhoddion’*

*‘Mae aelodau’n talu ffi aelodaeth sy’n talu ein costau’*

*‘Rydyn ni’n codi ffi fach am y bagiau pantri’*

*‘Rydyn ni’n codi dim ond £2 am ymarfer corff ar eich eistedd a 50c am goffi sy’n creu digon i dalu’r Tiwtor am Ymarfer Corff a manion’*

*‘Rydyn ni’n gallu cynnal ein prif swyddogaethau heb gyllid gan fod gennyn ni grŵp gwych o wirfoddolwyr brwd’*

*‘Rydyn ni’n dibynnu ar lawer o wirfoddolwyr’*

*‘Rydyn ni’n annibynnol o gyllid oherwydd ein bod yn wirfoddolwyr’*

Ar wahân i’r ffynonellau cyllid a grybwyllwyd ar sleid 12, roedd yr ymatebion i’r cwestiwn hwn hefyd yn cynnwys:

- Ffioedd aelodaeth
- Dibynnu ar waith gwirfoddol


Roedd atebion niferus yn pwysleisio'r anhawster i dderbyn neu gynnal cyllid

# Roedd cyfran helaeth o fentrau’n derbyn cefnogaeth trydydd parti heb fod yn ariannol

87 ymatebwr

**C8. Ar unrhyw adeg, ydy eich prosiect/menter wedi derbyn unrhyw gymorth heb fod yn ariannol, e.e. cyngor busnes?**

Cefnogaeth ariannol yw'r gefnogaeth fwyaf a roddir i brosiectau/mentrau o hyd



# Cymorth busnes oedd y ffurf mwyaf poblogaidd o gefnogaeth trydydd parti heb fod yn ariannol

C8. Os wnaethoch chi glicio Ydy ar gyfer C8, manylwch os gwelwch yn dda (neu Ddim yn Berthnasol os nad oes sylw gennych)

26 ymatebwr





O'r atebion a ddadansoddwyd a oedd yn canolbwyntio ar y mathau o gymorth trydydd parti heb fod yn ariannol a grybwyllwyd amlaf:

- Soniodd 73% am gyngor busnes fel y math allweddol o gymorth heb fod yn ariannol a dderbyniwyd
- Soniodd 14% am bartneriaethau bwyd
- Cyfeiriodd 14% at y ddarpariaeth hyfforddiant i aelodau staff

Tyfu Cymru oedd y darparwr cymorth heb fod yn ariannol y soniwyd amdano fwyaf

# Lles a iechyd oedd y mathau o fuddion sy'n cael eu cynnig gan fentrau bwyd cymunedol y soniwyd amdanynt fwyaf




85 ymatebwr

Roedd tebygrwydd yn ymatebion defnyddwyr, a'r tri budd a ddewiswyd fwyaf oedd:

- Bod yn rhan o'r gymuned (73%)
- Gwella'r amgylchedd lleol (57%)
- Buddion iechyd meddwl (54%)

Er bod buddion cymdeithasol fel rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol hefyd ymhlith y rhai y soniwyd amdanynt amlaf

# Dim ond ychydig o'r ymatebwyr nododd fuddion eraill i brosiectau bwyd cymunedol

**C9. Arall (manylwch os gwelwch yn dda)**

*'Cymorth i deuluoedd ifanc sy'n cael trafferth a phobl sengl oedrannus'*

*'Helpu i liniaru tlodi newyn yn y rhanbarth'*

*'Rhoi mynediad at ffrwythau ffres i bobl na fyddai o bosibl yn gallu ei fforddio fel arall'*

*'Diogelwch bwyd'*

*'Gyda chyllid CRF mae gennyn ni 50 o leoliadau cyflogadwyedd wedi'u hariannu'n rhan amser mewn sgiliau Gwyrdd ac ynni adnewyddadwy'*

*'Ein Pwrpas busnes yw cefnogi ein cymuned leol a nifer yr ymwelwyr yng Nghaerllion'*

*'Bydd defnyddio tir ger pencadlys yr heddlu yn fath arbennig o atgyfnerthu cymunedol. Hefyd, rydyn ni'n bwriadu cael dylanwad globaleiddio cryf trwy ddefnyddio sylfaen o rywogaethau mor eang ag y gallwn ei dyfu yn ein hinsawdd'.*

9 ymatebwr

Soniodd y mwyafrif am y frwydr yn erbyn tlodi bwyd lleol

Soniwyd hefyd am gynnydd mewn cyfraddau cyflogadwyedd lleol, nifer ymwelwyr ac argaeledd rhywogaethau

# Anawsterau ariannol oedd yr her i sefydlu a chynnal prosiectau

**C10. Beth oedd y prif heriau wrth sefydlu a/neu gynnal eich prosiect/menter? Rhowch fanylion os gwelwch yn dda (neu Ddim yn Berthnasol os nad oes sylw gennych)**

71 ymatebwr

Y mathau o heriau y soniwyd amdanynt fwyaf wrth sefydlu a/neu gynnal prosiectau bwyd:

- Soniodd 47% am anawsterau ariannol cyffredinol a’r anhawster i sicrhau cyllid
- Soniodd 22% am ddiffyg argaeledd neu hygyrchedd i dir a gofodau lle gallai’r prosiectau ddatblygu
- Soniodd 16% am ddiffyg gwirfoddolwyr neu anhawster i'w cael
- Soniodd 14% am anawsterau wrth gael cyflenwadau bwyd a/neu roddion


Soniwyd am Covid-19 fel un o brif achosion heriau mewn 15% o’r ymatebion cyffredinol – gan gynnwys yr anallu i redeg rhai gweithrediadau busnes o ganlyniad i’r cyfnodau clo (h.y. digwyddiadau, cynulliadau cymunedol), anhawster wrth addasu i ffyrdd newydd o weithio a sicrhau adnoddau ariannol

Soniwyd am y llywodraeth a’r sector cyhoeddus fel un o brif achosion heriau mewn 9% o’r ymatebion cyffredinol – cafodd yr anawsterau a grybwyllwyd fwyaf eu gosod gan y llywodraeth a’r sector cyhoeddus, gan gynnwys biwrocratiaeth araf ac ystyfnig yn ogystal ag anhawster i ddarparu cyllid.



# Byddai mwyafrif y mentrau'n elwa o gefnogaeth ariannol a chael mwy o bobl i gymryd rhan

**C11. Pa gefnogaeth fyddech chi wedi elwa ohono wrth sefydlu eich prosiect/menter? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**



# Soniodd 16% o’r ymatebwyr am fathau eraill o gefnogaeth

**C11. Arall (manylwch os gwelwch yn dda)**

14 ymatebwr

*‘Ymagweddau mwy adeiladol gan adrannau rheoleiddio awdurdodau lleol’*

*‘Mynediad at lunwyr polisi’*

*‘Cynllunio gan y cyngor i fod yn agored i syniadau newydd’*

*‘Polisi cynllunio da sy’n cefnogi cynhyrchu bwyd ar raddfa fach’*

*‘Gweithio ar y cyd â banciau bwyd eraill’*

*‘Sefydliad trydydd sector sy’n fodlon ac yn gallu cynnal y prosiect’*

*‘Mwy o gyngor gan rwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy; cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol’*

*‘Gwell allgymorth i roi cyhoeddusrwydd i’r prosiect a chyllid tymor hwy’*

*‘Cawson ni gefnogaeth wych gan Wrecsam i sefydlu’r clwb ac rydyn ni’n parhau i gael y gefnogaeth sydd ei hangen’*

Soniodd y mwyafrif am yr angen am gydweithio mwy adeiladol ag awdurdodau’r sector cyhoeddus, yn ogystal â sefydliadau trydydd parti eraill

Er mai arfer gorau a chyngor busnes a gafodd y sgôr leiaf ar y cwestiynau caeedig, mae llawer o bobl yn gofyn am y math hwn o gymorth yn y cwestiynau agored

# Cyrraedd mwy o aelodau'r gymuned oedd yr uchelgais y soniwyd amdano fwyaf ymhlith mentrau

C12. Sut hoffech chi ddatblygu/tyfu eich prosiect/menter yn y dyfodol (neu Ddim yn Berthnasol os nad oes sylw gennych)?

67 ymatebwr

O'r atebion a ddadansoddwyd a oedd yn canolbwyntio ar y ffyrdd y soniwyd amdanynt fwyaf o ddatblygu prosiect/menter benodol:

- Dywedodd 42% yr hoffen nhw gynyddu allgymorth effaith gadarnhaol eu prosiect i fwy o aelodau o'r gymuned
- Dywedodd 26% yr hoffen nhw ddatblygu eu prosiect drwy ddenu mwy o arian
- Soniodd 23% am yr angen i brynu mwy o dir
- Dywedodd 9% yr hoffen nhw gydweithio â mwy o sefydliadau trydydd parti, fel busnesau a ffermydd lleol




# Cynyddu hygyrchedd tir oedd yr amcan strategol y soniwyd amdano fwyaf

**C13. Yn seiliedig ar eich profiad, beth hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys yn Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru? (neu Ddim yn Berthnasol os nad oes sylw gennych)**

74 ymatebwr


Canlyniadau dymunol Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru:

- Soniodd 33% am y cynnydd mewn hygyrchedd tir
- Soniodd 27% am y cynnydd mewn cyllid
- Cyfeiriodd 14% at godi gwell ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd ac awdurdodau'r llywodraeth am bwysigrwydd y prosiectau a'r achosion allweddol
- Roedd gan 13% awydd i hyrwyddo cyfleoedd a chydweithio cryfach rhwng gwahanol sefydliadau bwyd lleol
- Soniodd 8% am fwy o fanciau bwyd sydd ar gael a mwy o hygyrchedd iddynt
- Soniodd 6% am fwy o erddi cymunedol



# Daeth y sôn mwyaf am yr angen am hygyrchedd tir gan fudiadau â 41+ person

**C13. Yn seiliedig ar eich profiad, beth hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys yn Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru? (neu Ddim yn Berthnasol os nad oes sylw gennych) – Hygyrchedd tir wedi'i rannu yn ôl maint mudiad**



# Ymhlith y mentrau sydd wedi bod yn rhedeg ers dros 11 mlynedd, rhoddodd 8 eu cyfeiriad e-bost


**C14. Diolch am lenwi'r holiadur. Os ydych chi'n hapus i Lywodraeth Cymru gysylltu â chi ynghylch Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru rhowch eich manylion cyswllt isod – mentrau 11+ mlwydd oed**

Mentrau a grybwyllwyd sydd wedi bod yn rhedeg ers 11+ mlynedd (am resymau GDPR enwau'r cwmnïau yn unig rydym ni wedi'u darparu - rhoddodd ambell un gyfeiriad e-bost personol):

Farm Garden
Gerddi Bro Ddyfi
Fferm Gymunedol Abertawe
CSA Sir y Fflint
Friends & Neighbours Community Alliance

# Gwirfoddolwyr yw’r grŵp mwyaf cyffredin o bobl sy’n ymwneud â phrosiectau waeth pa mor hir mae’r prosiect wedi bodoli

**C4. ‘Pwy sy’n ymwneud â’r prosiect/menter?’ (wedi’u rhannu yn ôl pa mor hir mae’r prosiectau wedi bodoli)**





*Busnes preifat - sefydliad masnachol sy’n rhan o redeg y prosiectau


# Mae sefydliadau sydd wedi bod yn rhedeg ers dros 6 blynedd yn dueddol o weithio gyda mwy o bobl

C5. Ers pryd mae eich prosiect/menter wedi bod yn rhedeg? (wedi'u rhannu yn ôl y nifer o bobl sy'n gweithio yn ôl hyd y prosiect)


Mentrau sy'n rhedeg ers llai na 2 flynedd wedi'u rhannnu yn ôl nifer y bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw





Mentrau sy'n rhedeg ers 3-5 mlynedd wedi'u rhannu yn ôl nifer y bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw




Mentrau sy'n rhedeg ers 6-10 mlynedd wedi'u rhannu yn ôl nifer y bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw




Mentrau sy'n rhedeg ers 11+ mlynedd wedi'u rhannu yn ôl nifer y bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw



# Ar y cyfan, mae sefydliadau hŷn yn dueddol o dderbyn cyllid trydydd parti yn amlach

C6. Ydy eich prosiect/menter yn derbyn cyllid trydydd parti? (wedi'u rhannu yn ôl hyd gwasanaeth prosiectau)

| Hyd gwasanaeth | Nifer y mentrau | Nifer y mentrau sydd wedi derbyn cyllid | % o'r sefydliadau sy'n derbyn cyllid |
|---|---|---|---|
| 11+ mlynedd | 11 | 9 | 82% |
| 6-10 mlynedd | 15 | 13 | 87% |
| 3-5 mlynedd | 22 | 19 | 86% |
| Llai na 2 flynedd | 39 | 25 | 64% |

# Mae cefnogaeth ariannol trydydd parti'n bwysig i brosiectau o bob oedran

C7. A fyddech yn ystyried bod eich prosiect/menter yn ariannol hunangynhaiol ar hyn o bryd neu a yw'n dibynnu ar gyllid neu gefnogaeth trydydd parti i weithredu? (wedi'u rhannu yn ôl hyd gwasanaeth prosiectau)

| Hyd gwasanaeth | Nifer y mentrau | Hollol ariannol hunangynhaliol | % sy'n hollol ariannol hunangynhaliol | Rhannol ariannol hunangynhaliol | % sy'n rhannol ariannol hunangynhaliol | Hollol ddibynnol ar gyllid/cefnogaeth trydydd parti | % sy'n hollol ddibynnol ar gyllid/cefnogaeth trydydd parti |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11+ mlynedd | 11 | 3 | 27% | 3 | 27% | 5 | 45% |
| 6-10 mlynedd | 15 | 4 | 27% | 5 | 33% | 3 | 20% |
| 3-5 mlynedd | 22 | 2 | 9% | 11 | 50% | 7 | 32% |
| Llai na 2 flynedd | 39 | 4 | 10% | 13 | 33% | 11 | 28% |

Felly, dylai mentrau sy'n gweithredu ers llai na 5 mlynedd fanteisio ar gyfleoedd fel derbyn cyngor busnes ac arfer gorau gan fentrau sy'n gweithredu ers mwy na 6 blynedd. Gallai mentrau mwy newydd gyflawni hyn drwy gydweithredu â rhai hŷn ar brosiectau cyffredin. Dim ond rhai o'r manteision allweddol a allai argyhoeddi mentrau hŷn i weithio mewn partneriaeth â rhai mwy newydd yw cynyddu eu cyrhaeddiad cymunedol, gwella eu delwedd gyhoeddus fel arweinwyr diwydiant, hwb ariannol posibl i'w gweithgarwch ac ehangu eu rhwydwaith gwaith.

# Sefydliadau sy’n weithredol ers 6+ blynedd sy’n derbyn y cyfraddau uchaf o gymorth heb fod yn ariannol trydydd parti


C8. Ar unrhyw adeg, ydy eich prosiect/menter wedi derbyn unrhyw gefnogaeth nad yw’n ariannol, e.e. cyngor busnes? (wedi’u rhannu yn ôl hyd gwasanaeth y prosiectau)

| Hyd gwasanaeth | Nifer y mentrau | Nifer y mentrau sydd wedi derbyn cymorth trydydd parti heb fod yn ariannol | % o’r mentrau sydd wedi derbyn cymorth trydydd parti heb fod yn ariannol |
|---|---|---|---|
| 11+ mlynedd | 11 | 5 | 45% |
| 6-10 mlynedd | 15 | 7 | 47% |
| 3-5 mlynedd | 22 | 8 | 36% |
| Llai na 2 flynedd | 39 | 11 | 28% |

Mae sefydliadau hŷn yn dueddol o gael eu hadnabod gan fwy o aelodau o’r cyhoedd sy’n ddefnyddwyr ac yn fwy sefydlog yn ariannol a dibynadwy, sydd yn gyfnewid yn denu mwy o bartneriaethau gyda thrydydd partïon. Yn yr achos hwn, gallai sefydliadau mwy newydd elwa o ddechrau partneriaethau lle mae pawb ar eu hennill gyda rhai hŷn

# O'u cymharu â rhai hŷn, mae prosiectau iau yn dueddol o fod â mwy o angen am gefnogaeth ariannol

**C11. 'Pa gefnogaeth fyddech chi wedi elwa ohono wrth sefydlu eich prosiect/menter?' (wedi'u rhannu yn ôl hyd gwasanaeth y prosiectau)**




Hefyd, mae mwy o angen arnyn nhw am fwy o bobl i gymryd rhan yn eu mentrau. Mae mentrau sy'n rhedeg ers llai da 2 flynedd yn dueddol o fod â mwy o alw am arweiniad ar arfer gorau a chyngor busnes.

# Crynodeb ac argymhellion

# Crynodeb o'r canfyddiadau

I'r rhan fwyaf o gyfranogwyr roedd bwyd cymunedol yn gyfystyr â 'bwyd sy'n cael ei dyfu'n lleol' yn ogystal â 'bwyd sy'n iach ac yn hygyrch i'r gymuned'

Roedd darpariaeth llysiau/cynlluniau bocsys llysiau, banciau bwyd a gerddi cymunedol ymhlith y mathau o brosiectau y soniwyd amdanynt fwyaf y mae ymatebwyr yn cymryd rhan ynddynt, ac Abertawe oedd yr ardal y soniwyd amdani fwyaf ar gyfer prosiectau bwyd cymunedol

Mae mwyafrif y mentrau'n cynnwys 41+ o aelodau, tra bod mwyafrif yr aelodau sy'n ymwneud â phrosiectau bwyd cymunedol yn wirfoddolwyr a'r lleiafrif yn brentisiaid; cynghorau lleol oedd y math amgen o gyfranogwyr y soniwyd amdanynt fwyaf

Mae'r rhan fwyaf o fentrau wedi bod yn rhedeg ers llai na dwy flynedd, tra bod y lleiafrif wedi bod yn rhedeg ers mwy nag 11 mlynedd

mae 76% o brosiectau wedi derbyn cyllid trydydd parti; y ffynhonnell ariannu allweddol ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau yw Llywodraeth Cymru a chynghorau lleol

Mae mwyafrif y mentrau naill ai'n rhannol neu'n gwbl ddibynnol ar gyllid trydydd parti, tra bod y lleiafrif yn gwbl hunangynhaliol yn ariannol

Nid yw 42% wedi cael cymorth trydydd parti nad yw'n gymorth ariannol – cyngor busnes oedd y math o gymorth heb fod yn ariannol y soniwyd amdano fwyaf (36%)



# Crynodeb o’r canfyddiadau

Roedd lles ac iechyd ymhlith y buddion y soniwyd amdanynt fwyaf o brosiectau bwyd cymunedol, a’r Gymraeg a grybwyllwyd leiaf

Yr her a grybwyllwyd fwyaf ar gyfer sefydlu a/neu gynnal menter oedd anawsterau ariannol a sicrhau cyllid, ac yna diffyg argaeledd a hygyrchedd i dir a gofod lle gallai’r prosiectau ddatblygu

Dywedodd mwyafrif y mentrau y bydden nhw’n elwa o gymorth ariannol, ac yna mwy o wirfoddolwyr a lle ar gael - dim ond y lleiafrif a soniodd am ganllawiau arfer gorau a chyngor busnes

Cyrraedd mwy o aelodau o’r gymuned oedd yr uchelgais a grybwyllwyd fwyaf ymhlith mentrau ar gyfer y dyfodol, ac yna denu mwy o gyllid a chaffael mwy o dir

Gwell hygyrchedd i dir oedd y canlyniad dymunol y soniwyd amdano fwyaf yn Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru, ac yna mwy o gyllid

Yn gyffredinol, mae mentrau hŷn yn tueddu i gael mwy o gyllid trydydd parti a chymorth heb fod yn ariannol na sefydliadau iau sy’n tueddu i fod angen cymorth ariannol, canllawiau arfer gorau a chyngor busnes yn amlach.



# Prif ganfyddiadau ac argymhellion

| | |
|---|---|
| 1. Cefnogaeth y naill i'r llall | Codi ymwybyddiaeth a chreu cyfleoedd partneriaeth i helpu mentrau newydd i ddysgu arfer busnes gorau, yn ogystal â dod o hyd i arian a gwneud cais am gyllid gan rai mwy sefydledig |
| 2. Ariannu a hygyrchedd tir | Codi ymwybyddiaeth a gwneud yn glir drwy eich cyfathrebu 'ble' a 'sut' i gael mynediad at gyllid a thir/gofod ychwanegol |
| 3. Hunangynhaliaeth ariannol | Ymchwilio i'r hyn y gellir ei ddysgu gan fentrau sy'n hunangynhaliol yn ariannol, a rhannu'r hyn a ddysgwyd i helpu mentrau sy'n cael trafferth i gyflawni annibyniaeth ariannol |
| 4. Gwirfoddolwyr | Helpu mentrau i godi ymwybyddiaeth o'u cynlluniau gwirfoddoli |
| 5. Ymwybyddiaeth y gymuned a'r gymuned yn cymryd rhan | Darparu cyngor ac arfer gorau i helpu mentrau i godi ymwybyddiaeth o'u mentrau ymhlith y cyhoedd a chymunedau lleol |
| 6. Gweinyddu | Cynorthwyo prosiectau i symleiddio'r beichiau gweinyddol/rheoleiddio maen nhw'n eu hwynebu |

Diolch.